


O'm Mhrofiad i – Adam Jones sy'n trafod cynyddu gweithgarwch ar Twitter



Byddwn dros y misoedd nesaf yn rhannu cyfres o erthyglau cryno yn trafod meysydd penodol, yn dwyn yr enw 'O'm Mhrofiad i!' Bwriad yr erthyglau hyn yw rhannu arbenigedd ac arfer da.

Adam Jones, Cydlynnydd Marchnata a Chyfathrebu Mentrau Iaith Cymru sydd yn rhannu ei brofiadau ar sut i fynd ati i gynyddu gweithgarwch ac ymwneud â'r gynulleidfa darged ar Twitter.

Cynnwys Da:

Mae sicrhau bod eich cyfrif llawn cynnwys da a diddorol yn hynod bwysig. Yn y bôn mae'n syml – gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y pwnc rydych yn ei drafod drwyddi draw, byddwch yn angerddol amdano!

Awgrym: Os ydy'r trydariat yn ymwneud â phwnc sy'n bwysig i chi, gofynnwch y cwestiwn – beth fyddwn i eisiau gwybod pe taswn i'n darllen y neges hon?

Wrth ateb y cwestiwn hwnnw, byddwch yn uniaethu'n fwy gyda'r cynnwys y mae'ch gynulleidfa yn chwilio amdano.

Mentrau

laith

Cymru

[Yn araf bach a phob yn dipyn...](#)

Mae'n bwysig cofio na fydd nifer eich dilynwyr, neu aildrydariadau, neu'r nifer sydd yn cysylltu'n uniongyrchol â chi ar Twitter yn cynyddu dros nos – mae'n fuddsoddiad amser, ac felly mae'n bwysig peidio â syrffedu cyn i bethau magu stêm.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod angen taro sylw i'ch cyfrif yn aml – trwy rannu negeseuon cyson rydych yn ennyn ac yn cynnal diddordeb eich cynulleidfa.

Awgrym: Beth am osod her ichi dreulio 5 munud bob bore ar Twitter fel man cychwyn?

[Cyfaill Dibynadwy...](#)

Rydych bellach wedi ennyn diddordeb eich cynulleidfa, felly sut ydych chi'n cynnal y diddordeb hwnnw?

Byddwch yn gyfaill dibynadwy – sicrhewch eich bod yn rhannu negeseuon diddorol o amryfal ffynonellau yn gyson a byddwch yn gyson yn y math o negeseuon rydych yn eu rhannu, meddyliwch beth sydd yn gyrru pobl i ddilyn ein cyfrif ni yn y lle cyntaf?

Awgrym: Beth am greu calendr cynnwys? Gallwch wneud hyn trwy ddefnyddio meddalwedd fel Hootsuite – sy'n eich galluogi i gynllunio ac amserlenni nifer o'ch negeseuon o flaen llaw.

Meddyliwch am y cerrig milltir/dyddiadau pwysig yn eich calendr gwaith, y digwyddiadau/prosiectau hynny hoffech tynnu sylw eich cynulleidfa atynt.

[Sgwrs yw Twitter](#)

Yn bwysicaf oll, cofiwch mai sgwrs yw Twitter ac felly mae'n bwysig eich bod yn gwrando ac yn ymateb i'ch cynulleidfa. Atebwch eu cwestiynau, rhannwch eu negeseuon nhw a mwynhewch!

Os oes gennych chi brofiadau hoffech chi eu rhannu? [Beth am gyfrannu erthygl i'r rhifyn nesaf?](#)